| Cyfenw<br>*Surname* | Rhif y Ganolfan<br>*Centre Number* | Rhif yr Ymgeisydd<br>*Candidate Number* |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf<br>*First name(s)* | | 0 |

cbac wjec

# TGAU

3020U30-1

S23-3020U30-1

**DYDD GWENER, 12 MAI 2023 – BORE**
**FRIDAY, 12 MAY 2023 – MORNING**

## CYMRAEG AIL IAITH – Uned 3
## *WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 3*
### ADRODDIADOL, PENODOL A CHYFARWYDDIADOL

1 awr 30 munud
*1 hour 30 minutes*

| Adran | Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Arholwr |
|---|---|---|---|
| A | 1. | 4 | |
| | 2. | 4 | |
| | 3. | 7 | |
| | 4. | 10 | |
| | 5. | 10 | |
| B | 6. | 9 | |
| | 7. | 10 | |
| | 8. | 11 | |
| | 9. | 15 | |
| C | 10. | 20 | |
| Cyfanswm | | | |

**CYFARWYDDIADAU**
***INSTRUCTIONS***

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.
*Use black ink or black ball-point pen. Do not use gel pen or correction fluid.*

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of this page.*

Atebwch **bob** cwestiwn **yn Gymraeg** yn y lleoedd gwag priodol.
*Answer **all** questions **in Welsh** in the spaces provided.*

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y tudalennau ychwanegol.
*If you run out of space, use the additional pages at the back of the booklet. Question numbers must be given for all work written on the additional pages.*

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill.**
***The use of dictionaries or any other resources is forbidden.***

**GWYBODAETH**
***INFORMATION***

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

Mae'r marciau ar gyfer cywirdeb mynegiant o fewn y cwestiynau yn cael eu nodi fel a ganlyn: [✓ = 2] ac ati.
*Marks awarded for accuracy of expression within the questions are indicated as follows: [✓ = 2] etc.*

3020U301
01

JUN233020U30101

ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. CJ*(X21-3020U30-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

## ADRAN A

**A1.** Rydych chi'n creu cronfa ddata ar feysydd chwarae Cymru. Rhaid i chi lenwi'r grid isod gyda'r wybodaeth am y Cae Ras. Darllenwch y wybodaeth isod.
*You are creating a database of Wales' sports grounds. You must fill in the grid below with the information about the Cae Ras. Read the information below.* **[4]**

### Y CAE RAS
**Stadiwm Pêl-droed Wrecsam**



*Agorwyd y stadiwm yn 1877. Mae'n boblogaidd ac yn bwysig yn hanes pêl-droed Cymru. Heddiw mae'r stadiwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gemau rygbi. Fodd bynnag mae'r stadiwm wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gemau criced a rasio ceffylau ac ambell gyngerdd fel Stereophonics yn y gorffennol.*

**Y Cae Ras, Heol yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AH**
**www.caeras.co.uk**

| | |
|---|---|
| **ENW'R STADIWM** | Y CAE RAS |
| **DYDDIAD AGOR Y STADIWM** | [1] |
| **GWEITHGAREDDAU POSIBL YN Y STADIWM** | 1. [1] |
| | 2. [1] |
| **GWEFAN** | [1] |



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)


Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A2.** Mae chwaraeon yn bwysig yng Nghymru. Pa chwaraeon sy'n boblogaidd gyda phobl ifanc Caerdydd? Darllenwch am eu hoff chwaraeon ac yna, labelwch y siart gyda'r **4** gweithgaredd i reolwr y ganolfan hamdden.
*Sport is important in Wales. Which sports are popular with the young people in Cardiff? Read about their favourite sports and then, label the chart with the **4** activities for the manager of the sports centre.* **[4]**

HOFF CHWARAEON POBL IFANC ARDAL CAERDYDD

Mae pobl ifanc yn mwynhau chwaraeon, yn enwedig chwaraeon tîm. Roedd hanner y bobl ifanc yn dewis rygbi fel eu hoff gêm. Wedyn roedd dau ddeg y cant yn dewis nofio. Mae nofio yn ffordd dda o gadw'n heini ac mae sawl clwb nofio yn y ddinas. Roedd chwarter y bobl ifanc yn dewis pêl-droed. Yn olaf roedd pump y cant o'r bobl ifanc yn dewis sglefrio iâ. Mae rinc sglefrio iâ yng Nghaerdydd.

**HOFF CHWARAEON**






ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

3020U301
03

**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A3.** Dyma wybodaeth am sawl cwmni dillad. Darllenwch amdanynt.
*Here is the information about a number of clothing companies. Read about them.* **[7]**

| | |
|---|---|
| **SGRYM**   | Cwmni dillad i gefnogwyr rygbi Cymru ydy Sgrym. Dechreuwyd y cwmni gan Matthew Jones. Roedd Matthew eisiau creu dillad modern i bobl sy'n hoffi dilyn rygbi.<br>Mae Matthew yn ysgrifennu llyfrau cwis fel arfer ond roedd yn chwilio am her newydd. |
| **Celtes**   | Merch o'r enw Llinos Mair ddechreuodd y cwmni Celtes. Astudiodd hi ddylunio yn y coleg ac wedyn aeth hi ati i greu crysau T a hwdis gyda sloganau doniol yn y Gymraeg. Mae gwaith y cwmni yn aml i'w gweld mewn gwyliau Cymreig ac Eisteddfodau. |
| **Howies**   | Sefydlwyd cwmni dillad Howies yn 1995 gan griw o bobl leol. Maen nhw'n cynllunio dillad ar gyfer yr awyr agored, yn enwedig dillad rhedeg neu seiclo. Mae'r cwmni yn poeni'n fawr am yr amgylchedd. Maen nhw'n defnyddio canfas organig, cotwm organig a gwlân merino. Hefyd maen nhw'n hoffi ailgylchu. Yn wir, maen nhw'n creu jîns drwy ailgylchu poteli plastig! |

(a) Pa gwmni maen nhw'n siarad amdano yma? Pa un o'r tri?
*Which company are they talking about here? Which one of the three?*

(i) Mae'r cwmni yma yn gofalu am y blaned. .......................................... [1]

(ii) Mae'r cwmni yma yn cefnogi tîm rygbi Cymru. .......................................... [1]

(iii) Mae'r cwmni yma yn hoffi hiwmor. .......................................... [1]



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(b) Ydy'r wybodaeth yma yn gywir neu yn anghywir? **Ticiwch (✓)** y golofn gywir yn y grid.
*Is this information correct or incorrect? **Tick (✓)** the correct column in the grid.*

| | CYWIR | ANGHYWIR | |
|---|---|---|---|
| Merch ddechreuodd y cwmni Sgrym. | | | [1] |
| Bydd pobl sy'n hoffi chwaraeon yn hoffi dillad Howies a Sgrym. | | | [1] |
| Rydych chi'n gallu prynu hwdis Celtes mewn Eisteddfodau. | | | [1] |
| Mae cwmni Howies dros ddeg mlwydd oed. | | | [1] |


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

**A4.** Bydd sioe ffasiwn yn cael ei chynnal yn yr ardal cyn bo hir. Darllenwch yr hysbyseb ar gyfer y sioe.
*A fashion show will be held in the area before long. Read the advertisement for the show.* **[10]**

**SIOE FFASIWN ARBENNIG**

**yn**

**Neuadd y Brenin, Llandre**

**Tachwedd 10fed am 7.30 y nos**

**Bydd y sioe yn cynnwys dillad babanod, dillad traeth a siwmperi Nadolig.**

**Noson i'w chofio.**


**Tocynnau: £18 y person yn cynnwys bwffe a'r sioe**

**Croeso i bawb!**

(a) Mae'r papur newydd eisiau prif fanylion y sioe ar gyfer eu ffeil. Llenwch y grid.
*The newspaper wants the main details of the show for its file. Fill in the grid.*

| DYDDIAD | LLEOLIAD | AMSER | PRIS |
|---|---|---|---|
| [1] | [1] | [1] | [1] |

(b) Wedyn maen nhw eisiau lluniau i ddangos pa ddillad fydd ar gael yn y sioe. Ticiwch (✓) y **3** llun addas.
*Then they want pictures to show what clothing will be available in the show. Tick (✓) the **3** suitable pictures.* [3]

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| | | | | |



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(c) Ydych chi'n hapus gyda phris y tocyn?
*Are you happy with the price of the ticket?* [1]

..........................................................................................................................................................................

(ch) Rhowch reswm dros eich ateb.
*Give a reason for your answer.* [2]

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................................



ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**A5.** Mae'r trefnwyr eisiau diolch i bobl am eu help gyda'r sioe ffasiwn. Maen nhw eisiau rhoi nodyn yn y papurau lleol. Rhaid i chi gyfieithu'r nodyn i'r papur bro Cymraeg.
*The organisers want to thank people for their help with the fashion show. They want to put a note in the local papers. You must translate the note for the local Welsh paper.* **[10]**

Y SIOE FFASIWN

Thank you for helping. The evening was amazing. We have raised £5000 for the hospital.

Click on #sioeffasiwn for more information.

Y SIOE FFASIWN


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

**TUDALEN WAG**
***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**
***PLEASE DO NOT WRITE ON THIS PAGE***




ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

## ADRAN B

**B6.** Mae aros mewn yurt yn boblogaidd y dyddiau hyn. Darllenwch am Ganolfan Glan Mydyr.
*Staying in a yurt is popular these days. Read about Glan Mydyr Centre.* **[9]**



**GLAN MYDYR**
**ABERAERON**
**CEREDIGION**

Mae pump yurt gyda ni. Dewch i brofi gwyliau gwahanol. Mae croeso i'r teulu, y plant a'r ci. Gallwch chi aros yn y coed, ymlacio ac anghofio am broblemau'r byd.

Ffoniwch: 07716883397
Ebostiwch: help@yurtsglanmydyr.com

(a) Pa gwestiynau hoffech chi ofyn i'r rheolwr am aros mewn yurt? Ysgrifennwch eich **2** gwestiwn yma.
*Which questions would you like to ask the manager about staying in a yurt? Write your **2** questions here.*

(i) ............................................................................................................................................... [1]

(ii) ............................................................................................................................................... [1]

Mae aros mewn carafan yn boblogaidd hefyd. Darllenwch am y maes carafannau yn ardal Aberhonddu.
*Staying in a caravan is also popular. Read about the caravan park in the Brecon area.*



**PARC GER-Y-LLYN**
**ABERHONDDU**
**POWYS**

Mae'r maes carafannau yma yn arbennig – un deg pump carafan i'r teulu neu ffrindiau (ond dim anifeiliaid).
Mae'r lle llawn hanes ar lan y llyn. Felly mae cyfle i bysgota ac ymlacio. Does dim eisiau teithio yn bell – mae'r cyfan yma. Siop, caffi, tafarn …

Ffoniwch 01874 658226


© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(b) Beth sy'n wahanol rhwng cael gwyliau yma yn un o'r yurts neu yn y carafannau?
*What's different about holidaying in one of the yurts or in the caravans?* [2]

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................

(c) Ble hoffech chi aros?
*Where would you like to stay?* [1]

.....................................................................................................

(ch) Pam? Rhowch **2** reswm.
*Why? Give **2** reasons.* [4]

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................

.....................................................................................................

3020U301
11


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

**B7.** Rydych chi a'ch ffrindiau wedi penderfynu aros mewn yurt. Rydych chi'n anfon neges at y ganolfan. Fodd bynnag, mae **10** camgymeriad yn y neges. Rhaid i chi gywiro'r camgymeriadau. Nodwch y cywiriadau yn y grid ar waelod y dudalen. Mae'r camgymeriadau yn cynnwys:

- gwallau sillafu
- gwallau atalnodi
- gwallau gramadeg

Mae'r camgymeriadau mewn bold ac wedi'u tanlinellu.

*You and your friends have decided to stay in a yurt. You are sending a message to the centre. However, there are* ***10*** *mistakes in the message. You must correct the mistakes. Note the corrections in the grid at the bottom of the page. The mistakes include:*

- *spelling mistakes*
- *punctuation mistakes*
- *grammar mistakes*

*The mistakes are in bold and have been underlined.* **[10]**

**Hoffen** i fwcio wythnos mewn yurt os gwelwch yn dda. Bydd naw **merched** yn y **grwp**. Rydyn ni gyd yn **mywnhau** byd natur **a** yn hoffi cerdded. Bydd aros mewn yurt yn **perffaith** i ni. **Ydy** pris gyda chi os gwelwch yn dda**.** Y dyddiad gorau ydy Medi dau ddeg wyth tan **Hydreff** y cyntaf.

Fy rhif ffôn **yn** 07766527339. Diolch yn fawr.

Sioned Rowlands

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
| **6** | **7** | **8** | **9** | **10** |



© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. 

**TUDALEN WAG**
***BLANK PAGE***

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**
***PLEASE DO NOT WRITE ON THIS PAGE***


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**B8.** Mae llawer o bobl wedi mynegi barn ar aros mewn yurt ar wefan y cwmni. Darllenwch eu sylwadau yn ofalus ac atebwch y cwestiynau.
*Many people have expressed their opinion on staying in a yurt on the company's website. Read their comments carefully and answer the questions.* **[11]**

| |
|---|
| Yn anffodus roedd ein gwyliau mewn yurt yn siomedig. Doedd dim teledu a doedd ein ffonau symudol ddim yn gweithio. Am hen ffasiwn. Dydy hyn ddim yn ddigon da. (Dafydd a Kelly, Aberystwyth) |
| Shwmae. Diolch am y gwyliau mewn yurt. Roedd yn wahanol ac yn brofiad gwych. Roedd pawb yn hoffi'r gwyliau. Roedden ni'n gallu cerdded fel teulu a seiclo o gwmpas y wlad. Roedd yn braf i allu anghofio am y traffig yn y ddinas. (Mel a Mali Williams, Lerpwl) |
| Diolch yn fawr am wyliau bendigedig. Roedd yn arbennig. Roedd y plant yn gallu anghofio am y teclynnau technoleg. Yn bendant roedd yn dda i ni fel teulu. Roedden ni'n gallu siarad gyda'n gilydd, chwarae gemau a mwynhau cwmni ein gilydd. Hoffen ni ddod eto ym mis Awst. (Teulu'r Jonesiaid, Llanelli) |
| Roedd y penwythnos yn wych ond roedd un broblem fawr. Doedd ein ffonau symudol ddim yn gweithio yno. Doedd y plant ddim yn hapus a doeddwn i ddim yn gallu siarad gyda'r bobl yn y gwaith. Mae eisiau newid hyn. (Sam James a'r teulu, Casnewydd) |

(a) Chwiliwch am **3** pheth positif sy'n cael eu nodi am y profiad.
*Look for **3** positive things that are mentioned about the experience.*

(i) .................................................................................................................. [1]

(ii) .................................................................................................................. [1]

(iii) .................................................................................................................. [1]



© WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(b) Mae sawl person yn cwyno am y broblem gyda ffonau symudol. Meddyliwch am **un** pwynt positif ac **un** pwynt negyddol am fod heb ffôn symudol am benwythnos.
*A number of people complain about the problem with mobile phones. Think of **one** positive point and **one** negative point about being without a mobile phone for a weekend.*

| | |
|---|---|
| Pwynt positif | [2] |
| Pwynt negyddol | [2] |

(c) Rydych chi'n helpu Glan Mydyr i wella eu gwefan. Rydych chi eisiau tynnu **4** sylw yn unig o'r darn darllen ar dudalen 14 – dim sylwadau cyflawn ond mae eisiau o leiaf **3** gair bob tro. Bydd y sylwadau yn helpu Glan Mydyr i ddenu mwy o bobl.
*You are helping Glan Mydyr to improve their website. You want to take **4** of the comments from the reading material on page 14 – not complete comments but each comment must include a minimum of **3** words each time. The comments will help Glan Mydyr to attract more people.*

(i) .......................................................................................................... [1]

(ii) .......................................................................................................... [1]

(iii) .......................................................................................................... [1]

(iv) .......................................................................................................... [1]


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.


**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**B9.** Mae nifer o ysgolion Cymru wedi gwahardd ffonau symudol erbyn hyn. Mae'r erthygl isod yn trafod y sefyllfa. Darllenwch yr erthygl yn ofalus ac yna atebwch y cwestiynau.
*A number of Welsh schools have banned mobile phones by now. The article below discusses the situation. Read the article carefully and then answer the questions.* **[15]**

**GWAHARDD FFONAU SYMUDOL**
**YN YSGOLION CYMRU!**
**Syniad da neu ddim?**



**Ydy ysgolion Cymru yn mynd i ddilyn penderfyniad Canada a Ffrainc? Mae Canada wedi gwahardd ffonau symudol mewn gwersi. Mae Ffrainc wedi gwahardd ffonau symudol yn yr ysgol.**

**Ydy ffonau symudol yn achosi problemau yn ysgolion Cymru?**

**Yn gyntaf mae plant a phobl ifanc heddiw yn treulio gormod o amser ar y ffôn symudol neu'r iPad neu'r tabled. Dydyn nhw ddim yn siarad gyda ffrindiau – maen nhw'n defnyddio Instagram. Dydyn nhw ddim yn siarad gydag aelodau'r teulu – maen nhw'n anfon tecst neu neges ar Snapchat. A bod yn onest dydy plant a phobl ifanc heddiw ddim yn ysgrifennu.**

**Yn yr ystafell ddosbarth mae pobl ifanc yn defnyddio ffonau symudol yn lle gwrando ar yr athro. Dydyn nhw ddim yn ffocysu ar y gwaith. Mae ystadegau yn dangos bod canlyniadau TGAU yn well mewn ysgolion sydd wedi gwahardd ffonau symudol.**

**Hefyd mae ffonau symudol yn gallu achosi bwlio. Yn sicr, mae bwlio yn broblem fawr yn ysgolion Cymru. Rhaid i ni stopio hyn.**

**Fodd bynnag, mae ochr arall i'r stori. Mae gwahardd ffonau yn gallu creu agweddau negyddol. Mae eisiau i'r plant ddefnyddio technoleg yn yr ysgol. Dylai ysgolion baratoi plant ar gyfer y byd gwaith. Mae pobl yn defnyddio ffonau symudol bob dydd yn y gweithle.**


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

(a) Atebwch y cwestiynau canlynol.
*Answer the following questions.*

(i) Pa **ddwy** wlad sydd wedi gwahardd ffonau symudol? [2]

i. .................................... ii. ....................................

(ii) Oes rhaid i berson ifanc gael ffôn symudol heddiw? .................................... [1]

(iii) Fydd defnyddio technoleg yn paratoi pobl ifanc at y gweithle?

.................................... [1]

(iv) Ydych chi'n cytuno gyda gwahardd ffonau symudol mewn ysgolion?

.................................... [1]

(b) Mae'r erthygl hefyd yn dweud bod "bwlio yn broblem yn ysgolion Cymru". Ydych chi'n meddwl bod hyn yn wir?
*The article also says that bullying is a problem in Welsh schools. Do you think this is true?* [2]

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

....................................................................................................

(c) Mae technoleg yn gallu helpu mewn gwersi weithiau. Meddyliwch am **3** phwnc posibl sy'n gallu defnyddio technoleg.
*Technology can help during lessons sometimes. Think of* ***3*** *possible subjects that can use technology.*

(i) .................................................................................... [1]

(ii) .................................................................................... [1]

(iii) .................................................................................... [1]


ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd.

Arholwr yn unig
*Examiner only*


(ch) Mae'r ysgolion wedi gofyn am farn y rhieni a'r bobl ifanc. Mae'r canlyniadau yma ar ffurf graff. Ysgrifennwch nodyn at lywodraethwyr yr ysgol yn crynhoi neges y graff. [5]

Rhaid i chi gynnwys:
- pwrpas y graff
- barn y rhieni a barn y bobl ifanc
- eich barn bersonol chi

*The schools have asked for parents' and young people's opinions. The results are here in the form of a graph. Write a note for the school governors summarising the graph.*

*You must include:*
- *the purpose of the graph*
- *the opinions of parents' and young people*
- *your personal opinion*

**Ddylen ni wahardd ffonau symudol yn yr ysgol?**






ⓗ WJEC CBAC Cyf. © WJEC CBAC Ltd. (3020U30-1)

Arholwr yn unig
*Examiner only*

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**ADRAN C**

**C10.** Ysgrifennwch **yn Gymraeg** ar un o'r canlynol.
*Write **in Welsh** on one of the following.* [10 + ✓ = 10] = **[20]**

**Naill ai,**

Thema nesaf y cylchgrawn ysgol ydy "Ffasiwn". Mae'r golygydd wedi gofyn i chi ysgrifennu **erthygl fer** ar ffasiwn pobl ifanc heddiw a'i broblemau. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:
- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu
- cyflwyniad i ffasiwn pobl ifanc
- problemau ffasiwn i bobl ifanc e.e. cost
- eich barn bersonol ar ffasiwn heddiw
- diwedd priodol

***Either,***

*The theme of the next school magazine is "Fashion". The editor has asked you to write a **short article** on young people's fashion today and its problems. (About 150 words)*

*You must include:*
- *your name and your reason for writing*
- *an introduction to young people's fashion*
- *the problems of fashion for young people e.g. cost*
- *your personal opinion on today's fashion*
- *an appropriate ending*

**Neu,**

Rydych chi'n trefnu trip penwythnos i'r clwb ieuenctid. Rydych chi'n ysgrifennu **llythyr** at y cyngor lleol yn gofyn am grant. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:
- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu
- gwybodaeth am y clwb ieuenctid
- gweithgareddau'r trip penwythnos
- manteision y trip i aelodau'r clwb
- diwedd priodol

***Or,***

*You are arranging a weekend trip for the youth club. You are writing a **letter** to the local council asking for a grant. (About 150 words)*

*You must include:*
- *your name and your reason for writing*
- *information about the youth club*
- *the activities for the weekend trip*
- *the advantages of the trip for the members of the club*
- *an appropriate ending*


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig
*Examiner only*

Arholwr yn unig
*Examiner only*

**DIWEDD Y PAPUR**
***END OF PAPER***


© WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig
*Examiner only*

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
| --- | --- |
| | |

Arholwr yn unig
*Examiner only*



© WJEC CBAC Cyf.